

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl Lefel 3 hwn yn rhoi trosolwg eang i chi o'r pynciau sy'n bwysig yn natblygiad modern a theori mathemateg bur. Mae'n adeiladu ar wybodaeth myfyrwyr am fodiwl Lefel 2, M208 Mathemateg Bur.

Mae M303 yn cynnwys cyflwyniad i ddamcaniaeth rhifau, yn datblygu'r ddamcaniaeth grŵp a gyflwynwyd yn M208, yn cyflwyno damcaniaeth algebraidd cylchoedd a meysydd, a hefyd yn cyflwyno damcaniaeth gofod metrig, sy'n adeiladu ar y dadansoddiad gwirioneddol yn M208. Caiff y syniadau hyn eu cymhwyso at gryptograffeg a fractalau.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, rhaid i chi feddu ar y canlynol:

- gradd dda (neu gymhwyster cyfatebol) ym maes mathemateg (2.1 neu'n uwch)
- y gallu i ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth lwyr o'r rhan fwyaf o'r deunydd a gaiff ei astudio yn y modiwl (er enghraifft, drwy gwblhau ymarfer marcio cyn y cyfweiliad yn llwyddiannus) a dangos y gallu a'r parodrwydd i ddatblygu dealltwriaeth o weddill y deunydd yn gyflym
- profiad o addysgu mathemateg bur yn llwyddiannus i fyfyrwyr trydedd flwyddyn/lefel 3 (neu'n uwch) ym maes algebra a dadansoddi (mewn dau neu fwy o'r meysydd canlynol yn ddelfrydol: gofod metrig, damcaniaeth grŵp, a damcaniaeth cylchoedd a meysydd)
- y gallu i ddarparu tiwtorialau ar-lein, gan ddefnyddio deunyddiau y gall fod angen i chi eu paratoi, sy'n briodol ar gyfer y modiwl a'r myfyrwyr
- y parodrwydd i gynnal tiwtorialau wyneb yn wyneb os bydd angen
- y parodrwydd a'r gallu i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - tiwtorialau ar-lein, fel dewis amgen i sesiynau wyneb yn wyneb
 - marcio aseiniadau a gyflwynir yn electronig, a gaiff eu marcio gan diwtoriaid, ar y sgrin (eTMAs)

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gradd uwch mewn mathemateg bur
- profiad o addysgu mathemateg bur i fyfyrwyr trydedd flwyddyn/lefel 3 aeddfed a/neu fyfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd mathemategol

Gwybodaeth ychwanegol

- bydd rhan o bob aseiniad a gaiff ei farcio gan diwtoriaid yn ffurfiannol.

Am fod myfyrwyr ar y modiwl hwn fel arfer yn cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r gwasanaeth TMA/EMA ar-lein. Efallai y bydd angen i chi hefyd farcio aseiniadau papur a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA). Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn

cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu a systemau'r brifysgol i fonitro cynnydd y myfyrwyr yn datblygu dros gylch oes y modiwl a bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny. Noder y bydd disgwyl i diwtoriaid ddefnyddio eu cyfarpar eu hunain ar gyfer pob agwedd ar e-ddysgu yn unol â pholisi'r Brifysgol.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	6
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	6
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	5.5